Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol G.G. Aberdâr
# Laburnam Drive
# Cwmdâr
# Aberdâr
# Rhondda Cynon Taf
# CF44 8RT

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/04/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yng Nghwmdâr ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Agorwyd yr ysgol ym 1949. Yn Ionawr 2003, symudodd i adeilad newydd ar y safle presennol. Mae'r dalgylch helaeth yn ymestyn o Ben-y-Waun ym mhen uchaf Cwm Cynon hyd at Abercwmboi.

Mae 14.7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, ffigwr sydd yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae gan 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Daw 2.6% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd, ac mae 2.2% o gefndir lleiafrif ethnig.

Ar hyn o bryd, mae 428 disgybl ar gofrestr yr ysgol, ffigwr sy'n cynnwys 57 disgybl meithrin amser llawn. Fe'u rhennir yn 15 dosbarth. Cyflogir 16 o athrawon amser llawn, gan gynnwys y pennaeth. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2009. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yn 2014-2015 yw £2,742. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £5,513 a'r lleiafswm yw £2,514. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yn safle 104 o'r 110 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu
- Mae safonau medrau llafar llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda
- Yn y mwyafrif o'r gwersi mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu priodol er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion
- Mae athrawon yn defnyddio asesiadau am y disgyblion yn effeithiol i adnabod grwpiau o ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol
- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chefnogol ble caiff pob disgybl fynediad cyfartal i'w holl weithgareddau

Fodd bynnag:

- Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfyngedig o brofiadau dysgu
- Nid yw gweithgareddau dysgu yn diwallu anghenion llawer o'r disgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai mwy galluog.
- Nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon manwl a chydlynus i gyflwyno'r cwricwlwm
- Mae safonau llawer o ddisgyblion yn is na'r lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig
- Nid yw rhan fwyaf y disgyblion yn caffael eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm
- Nid yw gallu mwyafrif y disgyblion i wella eu gwaith eu hunain wedi datblygu'n ddigonol
- Mae presenoldeb disgyblion yn wan
- Nid yw'r addysgu ar y cyfan yn herio'r disgyblion yn ddigonol
- Nid yw'r ysgol wedi llwyddo i gynnwys gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd o fewn eu cynlluniau
- Mae gwaith marcio y rhan fwyaf o athrawon yn aneffeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r pennaeth newydd yn cynnig arweiniad clir ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd allweddol sydd angen eu datblygu
- Mae rhestr gytûn o flaenoriaethau wedi eu pennu mewn perthynas â datblygiad yr ysgol
- Mae'r llywodraethwyr yn dechrau chwarae rhan fwy gweithredol wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol

Fodd bynnag:

- Nid yw'r arweinyddiaeth, dros amser, wedi cael yr effaith angenrheidiol ar gyfeiriad strategol yr ysgol
- Nid yw trefniadau hunanarfarnu yn ddigon treiddgar i alluogi'r ysgol i flaenoriaethu'r holl elfennau pwysig sydd angen eu gwella
- Nid yw'r prosesau arfarnu yn rhoi sylw digon manwl i wella cyflawniad disgyblion
- Nid yw cynllunio llawer o'r athrawon yn ddigon systematig er mwyn herio disgyblion yn gynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Dros amser, nid yw hunanarfarnu a chynllunio strategol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth
- Mae llywodraethwyr wedi bod yn araf wrth ymateb i ddiffygion penodol yn yr arweinyddiaeth sydd wedi cael effaith negyddol dros amser ar safonau disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Gwella safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

A4 Sicrhau bod cynllunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol a medrau llythrennedd a rhifedd yn gyflawn, ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth

A5 Gwella'r cynllunio er mwyn sicrhau her gyson ar gyfer disgyblion o bob gallu

A6 Sicrhau bod sylwadau athrawon yn galluogi disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith

A7 Cryfhau rôl yr arweinwyr a'r llywodraethwyr er mwyn cynllunio'n strategol ar gyfer codi safonau disgyblion.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Mae llawer yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus sy'n gweithio'n effeithiol mewn parau, grŵp neu fel unigolion wrth ymateb i dasgau yn frwdfrydig. Ar draws yr ysgol, gall mwyafrif y disgyblion alw i gof ddysgu blaenorol yn dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i gaffael gwybodaeth ac i ddatblygu medrau newydd.

Mae safonau medrau llafar llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae llawer yn cyfathrebu'n hyderus ac mae ychydig yn troi'n naturiol ar lafar i ddefnyddio geirfa eang mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i gyfathrebu yn fuan yn y Gymraeg, a hynny o waelodlin isel. Mae llawer yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus, ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn darllen gyda chywirdeb a mynegiant cadarn. Mae llawer yn medru trafod agweddau o lyfr yn hyderus er mwyn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio ystod eang o arddulliau ysgrifennu at ddibenion amrywiol. Mae'r mwyafrif yn cyflwyno darnau dychmygus wrth ddatblygu ac ymestyn eu syniadau yn briodol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n arddel yr un safonau wrth gaffael eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Nid ydynt yn ysgrifennu'n ddigon estynedig nac yn defnyddio digon o ffurfiau gwahanol o ysgrifennu ar draws ystod y meysydd dysgu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae safon llawysgrifen mwyafrif y disgyblion yn anghyson ac yn flêr.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn medru darllen yn ystyrlon gyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Serch hyn, mae diffyg her yn y deunydd darllen yn golygu mai ychydig o ddisgyblion yn unig sydd yn troi at lyfr o'u gwirfodd i'w fwynhau. Mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais yn effeithiol i gyfleu ystyr wrth ddarllen ar goedd, ond ychydig yn unig sy'n gallu trafod eu hoff lyfrau neu awduron. Mae uwch fedrau darllen mwyafrif y disgyblion yn dda ac mae eu gallu i gip ddarllen gwybodaeth ffeithiol yn datblygu'n briodol.

Dros amser, nid yw mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi gwneud digon o gynnydd o ran datblygu eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Yn ddiweddar, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith o safon uwch yn ystod gwersi iaith. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant cadarn hwn mewn safonau ysgrifennu i'w weld ar draws y cwricwlwm. Mae llawer y ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus ar lafar yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae cywirdeb ieithyddol mwyafrif y disgyblion yn wallus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol yn ystod gweithgareddau rhif. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion sydd yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn ystod gwersi mathemateg yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau i ddatrys problemau rhif a geiriol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ymgymryd â gweithgareddau datrys problemau yn systematig ac ar lefel briodol. Serch hyn, lleiafrif o ddisgyblion sy'n cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn pynciau eraill.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd boddhaol mewn perthynas â'r targedau a osodwyd iddynt. Serch hyn, nid yw disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni cystal ag y gallent, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig wedi bod yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol yn amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% uchaf dros yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch, dros y tair blynedd ddiwethaf, wedi bod yn gyson yn y 50% uwch mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a rhwng y 50% is a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio. Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol wedi bod rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch mewn Cymraeg. Mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi amrywio. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 50% is, tra bod perfformiad yr ysgol mewn Saesneg wedi bod rhwng y 25% isaf a'r 50% is. Mae perfformiad mewn mathemateg dros amser wedi dirywio o'r 50% uwch i'r 25% isaf. Mae gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Nid oes patrwm amlwg yng nghyflawniadau disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn gyffredinol, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyflawniadau disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim cystal â'u cyfoedion ar y lefelau disgwyliedig. Fodd bynnag, dros gyfnod, mae cyflawniadau disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim ychydig yn is na'u cyfoedion ar y lefelau uwch.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi. Maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod pryderon. Mae bron pob un yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i gadw'n heini.

Mae cyfradd presenoldeb disgyblion wedi dangos cynnydd cyson dros bedair blynedd.  Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd yn 94.4%.  Fodd bynnag, mae’r ysgol yn parhau yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn briodol i’r ychydig gyfrifoldebau a gânt o fewn y dosbarthiadau.  Gall aelodau’r cyngor ysgol gyfeirio at nifer o welliannau sydd wedi digwydd o ganlyniad i’w awgrymiadau, er enghraifft, y cwrs antur ar dir yr ysgol.  Fodd bynnag, nid yw eu cyfrifoldebau fel aelodau o’r cyngor ysgol wedi datblygu’n llawn hyd yma.

Mae’r disgyblion yn falch o fod yn rhan o’u cymuned.  Maent yn ymweld â’r gymuned yn rheolaidd fel rhan o’u gwaith thematig, ac yn croesawu ymwelwyr i’r ysgol i sgwrsio am brofiadau diddorol.  Maent yn cyfrannu’n briodol at waith dyngarol drwy godi arian a chymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol yn lleol.  Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu eu medrau cymdeithasol a’u medrau cyfathrebu.  Nid yw gallu mwyafrif y disgyblion i wella eu gwaith eu hunain wedi datblygu’n ddigonol.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfyngedig o brofiadau dysgu.  Nid yw’r cynllunio yn ddigon manwl a chydlynus er mwyn cyflwyno’r cwricwlwm yn llawn.  O ganlyniad, nid yw gweithgareddau dysgu yn diwallu anghenion llawer o’r disgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai mwy galluog.  Nid yw’r cynlluniau sydd yn bodoli yn llwyddo i gynnwys gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.  Nid yw’r medrau hyn yn cael eu hatgyfnerthu a’u datblygu yn unol â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac nid ydynt yn bodloni’r gofynion statudol.

Mae athrawon yn cydweithio’n briodol er mwyn sicrhau bod profiadau cyson yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion o’r un flwyddyn.  Mae’r cynllunio yn canolbwyntio’n briodol ar ddarparu cyfleoedd i ddatblygu safonau Cymraeg, Saesneg a mathemateg.  Fodd bynnag, mae diffygion sylweddol yn y cynllunio ar gyfer pynciau a meysydd dysgu eraill.  Prin iawn yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd er mwyn ysgrifennu’n estynedig ar draws y cwricwlwm.  Nid yw’r ysgol yn cynllunio ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm ac, o ganlyniad, nid yw’r medrau hyn yn cael eu hatgyfnerthu a’u datblygu yn briodol.

Mewn ychydig o wersi, mae’r disgyblion yn llwyddo i ddefnyddio eu medrau meddwl a TGCh yn briodol.  Fodd bynnag, nid yw llawer o’r athrawon yn cynllunio ar gyfer ymestyn medrau TGCh disgyblion yn ddigon trwyadl.

Mae’r ysgol yn cynllunio’n briodol ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant a hanes Cymru ac yn darparu cyfleoedd cadarn i ddatblygu Cymreictod y disgyblion.  Maent yn defnyddio nifer o strategaethau er mwyn annog y disgyblion i siarad mwy o Gymraeg ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safon iaith lafar disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn addas.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae ganddynt gysylltiadau agos ag ysgol yn Uganda, ac yn ddiweddar maent wedi anfon tua 500 o lyfrau er mwyn gwella eu llyfrgell. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd priodol ar gyfer dysgu am draddodiadau a diwylliant gwledydd fel Tsieina a gwlad Pwyl. Fodd bynnag, nid yw cynllunio llawer o'r athrawon ar gyfer addysgu'r agweddau hyn yn ddigon systematig ac nid ydynt yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n gynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Mae yna berthynas waith da yn bodoli rhwng yr athrawon a'r disgyblion ac mae bron pob aelod o staff yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol. Mae rhediad llawer o'r gwersi yn fywiog ac, ar y cyfan, mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn.

Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu priodol er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio'n briodol ar gyfer disgyblion o allu gwahanol ac yn annog y disgyblion i fod yn annibynnol drwy roi'r rhyddid iddyn nhw ddewis her eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol ac nid yw'r cynllunio'n ddigon cydlynus er mwyn sicrhau dilyniant ysgol-gyfan.

Yn y lleiafrif o wersi, nid yw'r amcanion dysgu yn cael eu rhannu'n ddigon clir gyda'r disgyblion ac nid yw'r athrawon yn adolygu cynnydd disgyblion tuag at yr rhain yn ystod y wers. Mewn llawer o'r gwersi, nid yw'r tasgau'n herio disgyblion o allu uwch. Mae gwaith marcio lleiafrif o'r athrawon yn aneffeithiol ac nid yw'r sylwadau bob tro'n galluogi'r disgyblion i wybod pa mor dda maent yn gwneud, a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Nid yw llawer o athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ddigon ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwella safon eu gwaith.

Mae'r athrawon yn asesu disgyblion yn briodol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i adnabod grwpiau o ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn safoni a chymedroli gwaith y disgyblion ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyrhaeddiad. Mae'r defnydd o'r gweithdrefnau hyn yn gymharol newydd ac nid ydynt eto wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth dda am gyflawniad disgyblion mewn nosweithiau rhieni a darperir adroddiadau cynhwysfawr diwedd blwyddyn yn adrodd ar gynnydd pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar ac mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Caiff pob disgybl ei drin yn deg a chânt gyfleoedd cyfartal i ddatblygu'n gymdeithasol, emosiynol a phersonol. Mae gwasanaethau cyd-addoli yn rheolaidd yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Serch hyn, mae ychydig o'r disgyblion yn cael eu heithrio o'r gwasanaethau yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco.

Mae'r ddarpariaeth clybiau allgyrsiol yn addas ac mae mwyafrif y disgyblion yn elwa o'r clybiau sy'n hybu ffitrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys pêl-rwyd, rhedeg traws gwlad, rygbi a phêl-droed.

Mae'r ysgol yn gweithredu rhaglen ymyrraeth berthnasol ar gyfer hybu lles y disgyblion sydd yn cael effaith briodol ar ymddygiad llawer o'r disgyblion. Mae'r ysgol yn hybu iechyd y disgyblion yn addas, drwy eu hannog i fwyta ac yfed yn iach.

Mae gweithdrefnau cadarn yn bodoli ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol drwy gysylltiadau effeithlon ag asiantaethau arbenigol, er enghraifft, gwasanaethau lles, yr heddlu, nyrs yr ysgol a'r gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn sicrhau cefnogaeth bellach.

Mae darpariaeth a pholisi addas yn bodoli yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol. Yn ddiweddar, mae gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar. O ganlyniad, mae'r ysgol yn trefnu cynlluniau addysg unigol ac yn eu hadolygu yn rheolaidd gyda'r rhieni. Mae'r trefniadau hyn yn arwain at raglenni ymyrraeth addas sydd yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r grŵp hwn o ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn effeithiol er mwyn sicrhau y caiff pob disgybl fynediad llawn i'w holl weithgareddau. Mae pwyslais llwyddiannus ar gydweithio a pharchu eraill yn ogystal â dathlu amrywiaeth trwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol a lles effeithiol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn arwyddair yr ysgol sef, 'Cyd Dynnu, Gwir Lwyddiant'.

Mae cyflenwad priodol o adnoddau perthnasol ar gyfer y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn adnoddau ar gyfer addysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio yn ddigon rheolaidd i gael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae'r adeiladau a'r tir eang oddi amgylch yn ddiogel, mewn cyflwr priodol, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Yn y cyfnod byr ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi llwyddo i roi arweiniad clir i'r ysgol. Mae ganddo weledigaeth gadarn ynghyd â dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd allweddol sydd angen eu datblygu. O ganlyniad, mae ymrwymiad o'r newydd ymysg y rhan fwyaf o'r staff i ddeall, datblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus er mwyn codi safonau. Maent bellach yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cychwyn ysgwyddo eu cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae

cyfarfodydd staff yn rhoi sylw priodol i godi safonau a thrafod blaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith hyd yma ar safonau a chyflawniad a chynnydd disgyblion.

Yn ddiweddar, ac o dan arweiniad effeithiol y pennaeth, mae'r uwch dim rheoli wedi cyflwyno strategaethau buddiol sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Bellach, mae gan bob aelod o'r uwch dim rheoli agweddau penodol i'w harwain er mwyn datblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol. Mae rhestr gytûn o flaenoriaethau wedi eu pennu mewn perthynas â datblygiad yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau penodol i godi safonau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â defnydd mwy effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Er mai datblygiadau diweddar yw'r rhain, maent yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn chwarae rhan foddhaol o ran pennu cyfeiriad strategol yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi derbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth ynglŷn â chyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg yn dda. Fodd bynnag, maent wedi bod yn araf wrth ymateb i ddiffygion penodol yn yr arweinyddiaeth sydd wedi cael effaith negyddol dros amser ar safonau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn dechrau cynllunio'n briodol ar gyfer gwella ar ôl cyfnod hir o gynllunio strategol aneffeithiol. Erbyn hyn, mae'r prosesau yn defnyddio ystod o ffynonellau tystiolaeth addas, sy'n cynnwys arsylwadau gwersi a holiaduron i rieni a disgyblion. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cyflwyno darlun clir o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau yn ogystal ag agweddau sydd angen eu gwella. Ar y cyfan, mae'n mynegi barnau cywir am safonau gwaith disgyblion. Serch hyn, nid yw prosesau'n ddigon treiddgar i alluogi'r ysgol i flaenoriaethu'r holl elfennau pwysig sydd angen eu gwella. Nid yw'r prosesau arfarnu yn gwneud digon o ddefnydd o graffu ar waith disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw'n rhoi sylw digon manwl i wella cyflawniad disgyblion ac nid yw'r gweithdrefnau wedi arwain eto at godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae cyswllt penodol rhwng y mwyafrif o ddeilliannau'r hunanarfarnu a'r targedau sydd yn y cynllun datblygu. Mae'r cynllun wedi ei gostio'n ofalus gan nodi cyfrifoldebau staff ac ystyriaethau amser priodol ar gyfer eu cwblhau. Mae'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau cysylltiedig yn cynnwys dangosyddion llwyddiant manwl a thargedau mesuradwy priodol er mwyn gosod cyfeiriad strategol.

Mae'r llywodraethwyr wedi dechrau gwerthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ac maent bellach yn chwarae rhan fwy gweithredol wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Yn ddiweddar, mae'r llywodraethwyr wedi cychwyn ymweld â dosbarthiadau ac maent yn derbyn adroddiadau manwl ar ddata perfformiad gan y pennaeth. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol ac maent yn cychwyn dwyn yr ysgol i gyfri.

Dros amser, nid yw hunanarfarnu a chynllunio strategol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae cysylltiadau cadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni ac mae systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn briodol.

Mae'r cysylltiadau ag asiantaethau allanol yn foddhaol ac yn cynorthwyo'r ysgol yn llwyddiannus i gwrdd ag anghenion disgyblion sydd angen ymyrraeth benodol. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag adran gwasanaethau seicoleg addysg yn ogystal â gwasanaeth lleferydd yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles a llafar y disgyblion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau cydweithio'n effeithlon gyda rhai o ysgolion y clwstwr er mwyn rhannu arfer dda wrth olrhain cynnydd disgyblion. Serch hyn, mae'n rhy gynnar i gael effaith ar godi safonau disgyblion. Mae partneriaeth addas yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol. Mae trefniadau pontio o'r cylch chwarae yn ddefnyddiol er mwyn rhoi cyfle i'r plant ymgartrefu cyn dechrau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn meithrin partneriaeth addas gyda busnesau lleol er mwyn datblygu profiadau ehangach y disgyblion. Er enghraifft, mae'r clwb eco wedi derbyn grant er mwyn datblygu gweithgareddau awyr agored yn yr ysgol ac ehangu ar brofiadau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r partneriaethau hyn wedi arwain at safonau gwell. Mae cysylltiadau gyda'r heddlu yn cyfrannu'n briodol at ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion am ddiogelwch ar y we, camddefnyddio sylweddau, perygl dieithriaid a bwlio.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys i gyflwyno gofynion y cwricwlwm. Mae arweinwyr wedi ymateb yn briodol i'r cytundeb cenedlaethol i leihau baich gwaith athrawon.

Mae trefniadau rheoli perfformiad addas ar gyfer yr athrawon, sy'n arwain at bennu targedau a threfnu cyfleoedd hyfforddiant i ddiwallu anghenion yr ysgol ac unigolion. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r athrawon a'r staff ategol fynychu cyrsiau hyfforddi priodol, er enghraifft, ar gyfer cyflwyno rhaglenni i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd a rhaglenni ymyrraeth i grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safon ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae staff yr ysgol yn cydweithio'n briodol â staff ysgolion eraill y clwstwr lleol. Maent yn arsylwi a rhannu arfer dda mewn meysydd penodol fel asesu ar gyfer dysgu, cymedroli a strategaethau i ddatblygu ysgrifennu disgyblion. Mae'r ysgol yn arwain prosiect ar ddefnyddio rhaglen electronig er mwyn olrhain cynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol gynllun priodol ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y cynllun ar ddeilliannau disgyblion bregus.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn briodol ac yn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu.  Caiff y gyllideb ei monitro'n ofalus gan y swyddog cyllid, y llywodraethwyr a'r awdurdod lleol.

O ystyried y defnydd o'r cyllid a safonau cyflawniad disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6742235 - Ysgol G.G. Aberdâr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 428 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 56 | 54 | 59 |
| | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 89.3 | 88.9 | 93.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 54 | 59 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.3 | 88.9 | 93.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.3 | 16.7 | 23.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 |
| | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 54 | 59 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.4 | 92.6 | 98.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.3 | 18.5 | 23.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 54 | 59 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.4 | 92.6 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 |
| | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.4 | 22.2 | 44.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6742235 - Ysgol G.G. Aberdâr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 428 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 60 | 35 | 54 | 55 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | 85.7 | 79.6 | 87.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 60 | 35 | 54 | 55 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.0 | 85.7 | 83.3 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.7 | 34.3 | 25.9 | 38.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 60 | 35 | 54 | 55 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.0 | 88.6 | 72.2 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 21.7 | 28.6 | 24.1 | 36.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 60 | 35 | 54 | 55 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.7 | 91.4 | 87.0 | 89.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.3 | 37.1 | 27.8 | 30.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 60 | 35 | 54 | 55 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 94.3 | 90.7 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 21.7 | 22.9 | 14.8 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | | 108 | | 104<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | | 104 | | 84<br>81%<br>92% | 20<br>19%<br>8% | | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | | 108 | | 105<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | | 104 | | 100<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | | 108 | | 95<br>88%<br>96% | 13<br>12%<br>4% | | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | | 105 | | 102<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | | 106 | | 103<br>97%<br>99% | 3<br>3%<br>1% | | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | | 107 | | 101<br>94%<br>98% | 6<br>6%<br>2% | | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | | 106 | | 102<br>96%<br>91% | 4<br>4%<br>9% | | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | | 108 | | 106<br>98%<br>95% | 2<br>2%<br>5% | | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | | 104 | | 74<br>71%<br>77% | 30<br>29%<br>23% | | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | | 105 | | 58<br>55%<br>84% | 47<br>45%<br>16% | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

*Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 34 | 19 | 12 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 56% | 35% | 6% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 34 | 24 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 34 | 22 | 12 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 33 | 18 | 13 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 55% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 34 | 13 | 19 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 38% | 56% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 34 | 13 | 18 | 1 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 38% | 53% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 33 | 17 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 52% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 34 | 13 | 12 | 4 | 1 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 38% | 35% | 12% | 3% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 34 | 17 | 15 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 50% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 34 | 16 | 13 | 3 | 1 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 47% | 38% | 9% | 3% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 33 | 20 | 12 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 61% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 31 | 10 | 14 | 1 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 32% | 45% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 33 | 12 | 15 | 3 | 3 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 36% | 45% | 9% | 9% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 34 | 18<br>53% | 13<br>38% | 1<br>3% | 1<br>3% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 33 | 13<br>39% | 12<br>36% | 4<br>12% | 2<br>6% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 33 | 17<br>52% | 13<br>39% | 2<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 31 | 14<br>45% | 10<br>32% | 1<br>3% | 1<br>3% | 5 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 33 | 17<br>52% | 12<br>36% | 3<br>9% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 33 | 19<br>58% | 10<br>30% | 1<br>3% | 1<br>3% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Gwenda Easton | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Janet Lynne Harris | Arolygydd Cymheiriaid |
| Huw Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| David Davies | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.